# Darparu gydag arbenigedd...

Uchafbwyntiau
Cymru 2013



# Cyflwyniad

**Caiff ein gweithgareddau yng Nghymru eu llywio gan ein gwerthoedd craidd sef masnacheiddiwch, integriti a stiwardiaeth. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod o sefydlogrwydd a chynnydd cyson wrth i ni barhau i weithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno ystod eang o brosiectau yn gysylltiedig gyda'n hasedau gwledig ac arfordirol, ynni a manwerthu. Rydym yn ymroi i reoli'r asedau hyn, gan sicrhau eu bod bob amser yn rhoi budd y medrir ei ddangos i bobl Cymru, yn ogystal ag i'r Trysorlys.**

| Sut y gwnaethom berfformio | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2013 £m | Ystâd y Goron Cymru Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012[1] (ailddatgan) £m | Cyfanswm Ystâd y Goron Blwyddyn yn diweddu 31 Mwarth 2013 £m | Cyfanswm Ystâd y Goron Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 £m | Cynnydd/ (gostyngiad) o'r flwyddyn flaenorol % | Canran o'r cyfanswm % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | **8.6** | 6.8 | **332.2** | 314.2 | 26.5 | 2.6 |
| Gwarged gros | **8.2** | 6.5 | **283.2** | 272.4 | 26.2 | 2.9 |
| **Gwerth eiddo** | **139.5** | 132.7 | **7,752.2** | 7,219.9 | 5.1 | 1.8 |
| Buddsoddiadau cyfalaf | **1.6** | 84.3 | **324.3** | 409.9 | | |
| Derbyniadau cyfalaf | **0.7** | – | **351.9** | 639.7 | | |

1 Yn ystod adolygiad ariannol, dynodwyd camgymeriad dyraniad yn yr wybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol. Fel canlyniad, cafodd rhai o'r cymharwyr eu hailddatgan i unioini'r camddyraniad.

## Sut y gweithredwn

Mae Ystâd y Goron yn fusnes amrywiol a lywodraethir gan Ddeddf Seneddol. Rydym yn gyfrifol am gynnal a gwella gwerth ein stad a'i hincwm, gyda ffocws neilltuol ar reolaeth ar gyfer yr hirdymor. Ar draws ein pedwar portffolio, ac yn unol â'n gwerthoedd craidd, rydym yn sicrhau enillion masnachol gydag integriti ac mae gennym ymrwymiad i stiwardiaeth ofalus o'r asedau yr ymddiriedwyd ynom i'w rheoli.

Caiff yr elw a enillir o'n gweithgareddau ei dalu i'r Trysorlys er budd y cyhoedd. Dros y 10 mlynedd ddiwethaf bu hyn yn gyfanswm o dros £2 biliwn ar draws y Deyrnas Unedig, a chynyddodd gwerth cyfalaf y portffolio gan dros £4 biliwn yn ystod yr un cyfnod.

Mae ein portffolio yng Nghymru yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd sylweddol o dir comin, deiliadaethau amaethyddol ac amrywiaeth o ddiddordebau mwynol. Rydym hefyd yn gyfrifol am tua 65 cant o flaen traethau sy'n cynnwys rheoli ac, mewn rhai achoson, ddatblygu porthladdoedd, harbwrs, marinas ac angorfeydd yn ogystal â chefnogi cynlluniau cymunedol, annog arfer amgylcheddol da a hyrwyddo rheoli ein hasedau morol arfordirol mewn modd cynaliadwy yn yr hirdymor. Ymhellach, rydym yn gyfrifol am wely'r môr allan i 12 milltir forol ac mae gennym hawliau penodol ar y sgafell gyfandirol. Mae gennym rôl allweddol wrth alluogi datblygwyr i wireddu'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy, yn neilltuol drwy ffermydd gwynt ar y môr. Mae ein portffolio trefol hefyd yn cynnwys parc siopa llwyddiannus Morfa yn Abertawe.

Wrth reoli ein portffolio yng Nghymru anelwn weithio mewn partneriaeth gyda llywodraeth a chymunedau lleol er budd pawb. Mae gennym berthynas waith dda gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, cynghorau lleol, cymunedau a'n cwsmeriaid ein hunain.

Er mai ein hamcan craidd yw bod yn sefydliad proffidiol, cyfunwn y rheidrwydd masnachol hwnnw gydag ymrwymiad yr un mor gadarn i'n gwerthoedd o integriti a stiwardiaeth. Rheolwn yr asedau yn ein gofal er budd cynaliadwy, hirdymor ein tenantiaid a chwsmeriaid eraill, eu busnesau, y cymunedau a gynrychiolant, a'r amgylchedd.

# Y portffolios a’r uchafbwyntiau ariannol



## Y portffolio Ynni a Seilwaith yng Nghymru

Gan ein bod yn gyfrifol am reoli gwely’r môr allan i’r terfyn tiriogaethol 12 milltir forol, mae ein trafodion yn cynnwys ynni adnewyddadwy, piblinellau olew a nwy, echdynnu agregau morol, pwerau telathrebu a phŵer. Mae gennym hefyd hawliau penodol dros y sgafell gyfandirol hyd at 200 milltir forol (ac eithrio hydrocarbonau).



## Y portffolio Gwledig ac Arfordirol yng Nghymru

Mae gennym stadau gwledig ym Mhumlumon a Thyndyrn yn gyfanswm o 1,310 hectar (3,238 erw) o dir amaethyddol a 26,900 hectar (66,470 erw) o dir comin yng Nghymru. Mae ein diddordebau economaidd hefyd yn cynnwys porthladdoedd, marinas a ffermydd gwynt.

Mae gennym hefyd 99,000 hectar (245,000 erw) o berchnogaeth mwynau yn unig yng Nghymru. Mae wyth safle ar les ar hyn o bryd ar gyfer echdynnu mwynau. Mae Ystâd y Goron yn dyfarnu lesau i weithredwyr masnachol ar gyfer mwyngloddio a fforio am aur ac arian ar draws y Deyrnas Unedig. Rydym yn gyfrifol am tua 65 y cant o flaen traethau Cymru.




## Y portffolio Trefol yng Nghymru


Mae Parc Siopa Morfa 346,000 tr sg yn Abertawe yn ased sylweddol yn y portffolio rhanbarthol a gaiff ei reoli gan ein tîm Trefol.

Wedi’i brynu am £80 miliwn yn 2011 ac yn agos at ganol y ddinas a’r M4, mae Morfa yn gartref i nifer o fanwerthwyr blaenllaw yn cynnwys Outfit, WM Morrison, TK Maxx, Next a B&Q.


| Refeniw yn ôl gweithgaredd | **Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2013 £m** | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 £m |
|---|---|---|
| Arfordirol | **1.3** | 1.4 |
| Ceblau/piblinellau | **0.1** | 0.1 |
| Amaethyddol | **0.1** | 0.1 |
| Coedwigaeth | **–** | – |
| Mwynau | **0.4** | 0.3 |
| **Cyfanswm gwledig ac arfordirol** | **1.9** | 1.9 |
| Ceblau/piblinellau | **0.3** | 0.2 |
| Treillio | **0.7** | 0.8 |
| Adnewyddadwy | **0.7** | 0.4 |
| **Cyfanswm ynni a seilwaith** | **1.7** | 1.4 |
| **Cyfanswm trefol** | **5.0** | 3.5 |
| **Cyfanswm** | **8.6** | 6.8 |

| Gwerth eiddo yn ôl gweithgaredd | **Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2013 £m** | Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2012 (ailddatgan) £m |
|---|---|---|
| Arfordirol | **16.4** | 17.1 |
| Ceblau/piblinellau | **1.6** | 1.5 |
| Amaethyddol | **4.0** | 4.3 |
| Coedwigaeth | **0.4** | 0.4 |
| Mwynau | **3.1** | 3.1 |
| **Cyfanswm gwledig ac arfordirol** | **25.5** | 26.4 |
| Ceblau/piblinellau | **4.1** | 2.0 |
| Treillio | **4.0** | 4.1 |
| Adnewyddadwy | **27.1** | 20.3 |
| **Cyfanswm ynni a seilwaith** | **35.2** | 26.4 |
| **Cyfanswm trefol** | **78.8** | 79.9 |
| **Cyfanswm** | **139.5** | 132.7 |

**Refeniw yn ôl gweithgaredd 2013**
£ million




**Prisiad eiddo yn ôl gweithgaredd 2013**
£ million






***Alison Nimmo*** *CBE*
*Llofnodwyd gan yr Ail Gomisiynydd a Swyddog Cyfrifeg ar ran y Bwrdd*

*17 Mehefin 2013*

# Y portffolio Ynni a Seilwaith yng Nghymru

## Mae gan y portffolio Ynni a Seilwaith rôl bwysig mewn dod â buddsoddiad, busnesau a swyddi i Gymru.

Dros y flwyddyn, cyfunwyd ein diddordebau Ynni a Seilwaith yn bortffolio diffiniedig. Gyrrwyd hyn i raddau gan drosglwyddo'r asedau arfordirol i'r portffolio Gwledig ac Arfordirol newydd, ac mae wedi'n helpu i ganolbwyntio ar reoli a chyflawni'n llwyddiannus holl amcanion strategol y portffolio Ynni a Seilwaith newydd drwy ei sectorau neilltuol: ynni, seilwaith a mwynau morol.

## Hwyluso'r sector adnewyddadwy

Gwelodd 2012/13 ddatblygwyr yn gwneud cynnydd da gyda phrosiectau adnewyddadwy yn nyfroedd Cymru. Ar fferm wynt Gwynt y Môr ger arfordir Gogledd Cymru, cafodd tua hanner y sylfeini ar gyfer y 160 tyrbin eu gosod eisoes, a chaiff y gweddill eu cwblhau yn ystod haf 2013. Gosodwyd y ddwy is-orsaf ar y tir yn ystod y flwyddyn hefyd yn ogystal â'r cyntaf o'r pedwar cebl allforio. Dechreuodd y gwaith ar y ceblau rhyng-arae yn Ebrill 2013, gyda'r tyrbin cyntaf i'w godi yn yr haf. Dylai'r safle fod yn hollol weithredol yn 2014, gyda chapasiti gosod o 576 MW. Mae'r datblygwyr RWE Innogy yn rhagweld y gall gynhyrchu digon o ynni i ddiwallu anghenion blynyddol cyfartalog tua 400,000 o gartrefi.

Parhaodd y ddau barth Cylch 3 mewn dyfroedd yn agos at Gymru, ym Môr Hafren a Môr Iwerddon, wneud cynnydd sylweddol. Bu'r pwyslais eto eleni ar gwblhau arolygon a digwyddiadau ymgynghori.

Cafodd y diwydiant tonnau a llanw sy'n datblygu hefyd flwyddyn gref arall. Ym mis Chwefror, sicrhaodd Siemens MCT gymeradwyaeth cynllunio gan Lywodraeth Cymru ac ar yr un pryd cafwyd cyllid o Gronfa Arddangos Arae Ynni Morol DECC i ddatblygu fferm lanw Skerries, ger arfordir gogledd-orllewinol Ynys Môn.

Sylweddolwn fod yr amrediad llanw yn nyfroedd Cymru yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer prosiectau adnewyddadwy ac rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, DECC a rhanddeiliaid eraill i wireddu'r cyfleoedd posibl hyn. Yn ystod 2012/13 fe wnaethom gynnal astudiaeth fanwl o faint a dosbarthiad adnoddau tonnau a llanw ar draws y Deyrnas Unedig, yn defnyddio ein System Adnoddau Morol (MaRS), gyda chefnogaeth gan Black & Veatch Cyf, mewnbwn gan ddiwydiant, ac mewn cysylltiad gyda rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod Lloegr a Chymru'n rhannu'r ardal sengl fwyaf o adnoddau amrediad llanw, ym Môr Hafren ac Aber Hafren.

## Cefnogi'r diwydiant ceblau

Yn 2012/13 roedd yr incwm o geblau a phiblinellau yn nyfroedd Cymru tua £300,000. Yn yr un modd â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, yng Nghymru cymerwn rôl ymatebol wrth ddyfarnu hawliau wrth i brosiectau newydd ddigwydd. Er enghraifft, rydym yn falch i helpu cyflenwi'r seilwaith hollbwysig ar gyfer Rhyng-gysylltydd Dwyrain-Gorllewin Eirgrid, cebl tanfor 500MW yn cysylltu Lloegr a Chymru a ddechreuodd weithredu yn Rhagfyr 2012. Disgwylir i'r cebl wneud gwelliannau i ddiogelwch ynni, cynyddu cystadleuaeth yn y sector trydan, annog twf ynni adnewyddadwy yn Iwerddon a hwyluso masnach.

Caiff y trefniadau trwyddedu ar gyfer ceblau telathrebu tanfor eu hadolygu yn y flwyddyn i ddod a disgwyliwn ddechrau ar ymgynghoriad gyda'r sector yn y dyfodol agos.

## Rheoli hawliau mwynol yn y môr

Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys yr hawliau mewnol ar wely'r môr neu o dan wely'r môr, o'r arfordir hyd at ymyl sgafell gyfandirol y Deyrnas Unedig, heb fod yn cynnwys olew a nwy. Fel perchennog tir, rhoddwn drwyddedau am echdynnu agregau unwaith y derbyniodd cwmni gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, sy'n rheoleiddio'r mater. I raddau helaeth, mae'r diwydiant adeiladu yng Nghymru yn dibynnu ar gyflenwad rheolaidd a dibynadwy o dywod a gro a gaiff ei dreillio o Fôr Hafren. Fe wnaethom barhau i weld gostyngiad yn y gweithgaredd gan fod y galw'n parhau'n isel oherwydd y dirywiad parhaus mewn adeiladu.

Mae cynaliadwyedd yn ganolog i bopeth a wnawn ar draws holl bortffolios Ystâd y Goron, ac rydym yn adolygu'n gyson y dystiolaeth wyddonol sydd ar gael i sicrhau fod y diwydiant treillio yn dilyn arfer gorau ac felly'n parhau'n weithgaredd y medrir ei gynnal am yr hirdymor.

# Y portffolio Gwledig ac Arfordirol yng Nghymru

## Rydym yn ymroi i reoli asedau'r portffolio Gwledig a Threfol, gan liniaru ein hawch masnachol gydag ymrwymiad dwfn i integriti a stiwardiaeth.

Cafodd y portffolios Gwledig ac Arfordirol eu huno yn ystod 2012, i gydnabod y llu o bethau cyffelyb a'r synergedd a fodolai er natur amrywiol yr asedau sy'n gysylltiedig.

### Tir comin Cymru

Mae'r rhan fwyaf o'n deiliadaethau gwledig yng Nghymru yn dir comin a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer defaid yn pori. Mae rheolaeth dydd-i-ddydd y tir hwn fel arfer yn nwylo cominwyr, sy'n gweithredu drwy gymdeithasau tir comin. Ein nod yw gweithio gyda thenantiaid i helpu gyda llwyddiant parhaus eu busnesau a chynyddu gwerth y deiliadaethau tir.

Rydym yn adolygu ardaloedd o dir comin yn gyson er mwyn rhoi 'presenoldeb' lleol a dynodi materion sydd angen sylw. Yn ystod 2012/13 fe wnaethom ganolbwyntio ar dir comin yng Ngheredigion.

### Deiliadaethau amaethyddol

Mae ein diddordebau amaethyddol yng Nghymru yn cynnwys Pumlumon, sy'n cynnwys dwy ddeiliadaeth amaethyddol, a Thyndyrn, sy'n cynnwys menter ffermio a hefyd ddiddordebau mwynol sylweddol ar lan orllewinol yr Afon Gwy. Mae Abaty Tyndyrn hefyd yn dod o fewn perchnogaeth Ystâd y Goron er i ni gytuno, er budd cadw'r gofeb ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, i roi'r Abaty yng ngofal CADW, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, dan gytundeb rheolaeth hirdymor.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom werthu y ddeiliadaeth oedd gennym ar ôl yn Aberystwyth, oedd tua 100 erw.

### Galluogi ynni adnewyddadwy ar y tir

Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Cymru blaenorol, fe wnaethom ddechrau'r flwyddyn gyda chynigion am dair fferm wynt ar gyfer ein deiliadaethau tir yn y broses gynllunio. Caiff y prosiectau hyn eu hyrwyddo drwy'r system gynllunio gan weithredwyr neu ddatbygwyr; ein rôl ni yw cyhoeddi opsiynau a lesau i ddatblygu prosiectau ar ein deiliadaethau tir lle'n addas.

Gwrthododd y pwyllgor cynllunio y cais i godi 15 tyrbin yn Llanllwni yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n mynd drwy'r broses apêl ar hyn o bryd. Mae'r prosiectau ar gyfer 11 tyrbin yn Llys Dymper yng Nghonwy a phedwar yng Nghilfaesty ym Mhowys yn parhau i wneud cynnydd da a gobeithiwn fod mewn sefyllfa i gyhoeddi datblygiadau yn ystod y flwyddyn i ddod.

### Cefnogi prosiectau arfordirol

Mae datblygiadau arfordirol yn annog twristiaeth, cefnogi gweithgaredd masnachol, creu amwynderau gwerthfawr a dod â refeniw a swyddi i gymunedau lleol yng Nghymru.

Cafwyd caniatâd cynllunio amlinellol yn Abergwaun i ddatblygu marina 450 berth gyda gweithdai, storau a chyfleusterau ategol. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys adeiladu hyd at 253 o fflatiau preswyl newydd yn cynnwys gerddi helaeth wedi'u tirlunio a phlatfform newydd ar gyfer ehangiad posibl porthladd presennol Stena Line. Bydd y cynllun hefyd yn creu promenâd a glannau newydd hygyrch i'r cyhoedd, ynghyd â pharcio i ymwelwyr. Bydd rhan o'r prosiect yn cynnwys blaen traeth Ystâd y Goron ac rydym yn gweithio gyda datblygydd y prosiect a rhanddeiliaid eraill i helpu cyflenwi'r datblygiad cyffrous yma.

Ymhellach o amgylch arfordir Sir Benfro yn Aberdaugleddau, cymeradwywyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad Martello Quays fydd yn cynnwys marina 260 berth, gweithdai a siop llongwyr yn ogystal â 450 o dai a fflatiau. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys promenâd cyhoeddus, gofod manwerthu, tŷ tafarn a bwyty, gwesty a sinema pum-sgrin. Unwaith eto, rydym yn gweithio gyda'r datblygydd i helpu hwyluso'r cynllun hwn.

Hefyd yn Aberdaugleddau, cawsom lwyddiant yn ein hymgyrch i roi sicrwydd angorfeydd trwyddedig i bobl leol. Yn flaenorol, nid oedd nemor ddim rheoleiddio ar angorfeydd ond mae llawer o berchnogion cychod yn awr wedi cofrestru ar gyfer ein cynllun. Bydd hyn yn creu platfform ar gyfer cynyddu ein hymgyfraniad mewn meysydd megis rheolaeth a stiwardiaeth leol.

### Mwynau, Mwyngloddiau Brenhinol a Mwyngloddiau Segur

Mae gweithgareddau echdynnu mwynau ledled Cymru yn ymestyn i wyth safle o wahanol faint a gaiff eu lesu i weithredwyr mwynol. Mae'r cynhyrchu'n cynnwys agregau o garreg galch a chraig igneaidd, yn ogystal â gweithgareddau llechi sy'n canolbwyntio ar gynnyrch toi a deunyddiau eraill. Mae'r gweithgaredd yn y safleoedd hyn wedi parhau'n sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf, ond yn yr un modd â'r diwydiant yn genedlaethol, mae wedi dioddef o ddirywiad yn yr economi ehangach, gydag allbwn gryn dipyn yn is na'i frig blaenorol.

Caiff adneuon o aur ac arian eu galw yn Fwyngloddau Brenhinol ac maent yn eiddo Ystâd y Goron pa le bynnag y maent ym mwyafrif y Deyrnas Unedig. Bu cynhyrchu masnachol yng Nghymru yn y gorffennol ac mae dwy les ar hyn o bryd i weithio aur yn ogystal â thri opsiwn i gymryd les i weithio aur.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wnaethom werthu ein diddordeb mewn chwarel segur yng Ngogledd Cymru er mwyn galluogi perchennog chwarel gyfagos, a chyn denant, i gyfuno perchnogaeth a hwyluso ailddatblygu'r holl safle. Yn ychwanegol, mae'r broses yn mynd rhagddi i werthu hen safle mwyngloddio i Ymddiriedolaeth er diddordeb hanesyddol a dibenion addysgol.

# Y portffolio Trefol yng Nghymru

## Yn ogystal ag asedau yn y West End yn Llundain, lle'r ydym yn rheoli Regent Street i gyd a thua hanner St James's, mae ein portffolio Trefol yn cynnwys eiddo manwerthu o'r radd flaenaf ar draws y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Parc Siopa Morfa yn Abertawe.

Wedi'i brynu am £80 miliwn yn 2011, mae Parc Siopa Morfa 346,000 tr sg yn Abertawe yn agos at ganol y ddinas ac o fewn cyrraedd rhwydd i'r M4.

### Profiad siopa ansawdd uchel

Roedd y parc wedi'i osod yn llawn adeg ei gaffael ac mae'n parhau felly heddiw. Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn falch i groesawu tenant newydd pwysig i Morfa. Mae Outfit yn gysyniad manwerthu sy'n dod ynghyd â llawer o brif frandiau yr Arcadia Group dan un to, megis Burton, Miss Selfridge a Topshop.

Mae'r tenantiaid eraill yn y parc yn cynnwys WM Morrison, TK Maxx, New Look, Next, B&Q a DSG Currys Megastore.

### Gweithio gyda'n tenantiaid

Gweithiwn yn agos gyda'n tenantiaid ar bob amser, gan wneud yn sicr fod y cyfleusterau a strategaeth y parc yn gydnaws gyda'u hamcanion busnes.

Er enghraifft, mewn ymateb i bryderon tenantiaid rydym wedi gweithredu terfyn amser ar barcio ceir ar rai dyddiau. Mae Morfa'n agos at Stadiwm Liberty, cartref Dinas Abertawe, ac ar ddyddiau gemau mae ceir cefnogwyr wedi mynd â lleoedd gwerthfawr gan felly ostwng nifer yr ymwelwyr i'r ganolfan siopa. Rydym wrthi'n monitro llwyddiant y polisi gyda'n tenantiaid ar hyn o bryd a byddwn yn ei fireinio i wneud yn sicr ei fod yn cyfateb ag anghenion manwl storau a siopwyr.

Ar draws ein portffolio rydym yn ymchwilio ffyrdd newydd a blaengar i wella ansawdd y cynnig manwerthu a phrofiad defnyddwyr, yn cynnwys treialu digwyddiadau a chynlluniau eraill i ddenuu siopwyr. Ym Morfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedii galluogi elusennau, megis ymladdwyr tân lleol, i gynnal hyrwyddiadau ac rydym yn edrych ar nifer o gynlluniau i gynyddu nifer yr ymwelwyr a chynyddu'r amser y maent yn aros ar y parc.

# Gweithio gyda llywodraeth a chymunedau

## Ar draws Ystâd y Goron, mae ein timau'n cydweithio gyda'r llywodraeth. Rydym yn awyddus i ymgysylltu gyda phob rhanddeiliaid a chwarae ein rhan lawn wrth helpu Cymru i fanteisio o'r asedau yr ydym yn eu rheoli.

Fe wnaethom ddangos ein hymrwymiad yn ffurfiol i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn 2011, yn nodi'r cyfrifoldebau a lefelau atebolrwydd ein priod sefydliadau.

Tu hwnt i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, rydym yn deall ac yn parchu deinameg datganoli ac yn awyddus i chwarae ein rhan drwy wneud yn sicr fod y ffyrdd yr ydym yn rheoli ein hasedau yn sicrhau budd i bobl Cymru. Rydym yn aelod o lawer o bwyllgorau cynghori, yn cynnwys grwpiau technegol a rhai'n ymwneud gyda chadwraeth forol, lle gall ein profiad a'n cyngor ddod â chynlluniau polisi i ffrwyth, megis ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy arallgyfeirio cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Ar 1 Ebrill 2013 daeth Adnoddau Naturiol Cymru yn gyfrifol am waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a'r Uned Caniatadau Morol. Croesawn Adnoddau Naturiol Cymru ac edrychwn ymlaen at gadw'r berthynas agos y gwnaethom ei mwynhau gyda'r sefydliadau oedd yn ei ragflaenu.

## Cronfa stiwardiaeth forol

Caiff cronfa stiwardiaeth forol Ystâd y Goron ei gwerthfawrogi'n fawr ledled y Deyrnas Unedig am gefnogi cynlluniau cymunedol, helpu i annog arfer amgylcheddol da a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy hirdymor ein hasedau morol. Mae pum maes blaenoriaeth ar hyn o bryd ar gyfer cyllid: mynediad, ymwybyddiaeth, bioamrywiaeth, amgylchedd a rheolaeth.

Bu gwella mynediad i'r amgylchedd morol bob amser yn flaenoriaeth ar gyfer cyllid. Eleni fe wnaethom roi £15,000 ar gyfer llithrfa newydd o Draeth Glan-y-Don ym Mhwllheli fel rhan o ddatblygiad cyffredinol Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau Pwllheli. Rhoddir £15,000 ychwanegol yn 2013/14 tuag at lithrfa i'r harbwr mewnol o'r bont gychod newydd, gan helpu amrywiaeth o chwaraeon dŵr i fanteisio o well mynediad i'r dŵr.

Dyma'r ail flwyddyn i ni glustnodi cyllid i Ynni Morol Sir Benfro, fforwm a sefydlwyd i helpu datblygwyr a chyrff statudol i gydweithio i gefnogi datblygiad ynni tonnau a llanw yng Nghymru. Byddwn yn rhoi £45,000 dros dair blynedd yn ogystal â chefnogi'r gweithgor gyda'n harbenigedd a'n profiad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i ariannu'r prosiect am dair blynedd, ac mae'r rhanddeiliaid eraill sy'n cymryd rhan yn y fforwm yn cynnwys Cyngor Sir Benfro, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, sy'n rhai o'n prif denantiaid yn ein portffolio ar arfordir Sir Benfro.

Yn RSPB Gwarchodfa Natur Conwy fe wnaethom roi £62,000 i ddatblygu ystafell arsyllu newydd i helpu codi ymwybyddiaeth o faterion morol ac aberol lleol, a thynnu sylw at y fflora a ffawna amrywiol sydd o amgylch y warchodfa. Gwneir yr adeilad o fyrnau gwellt a gafwyd gan un o'n tenantiaid ffermio gwledig yn Tabley. Adeiladwyd yr holl warchodfa ar dir Ystâd y Goron yn 1991 fel cynefin i ddigolledu am adeiladu twnnel ffordd A55 sy'n rhedeg dan yr aber, ac mae ar les i'r RSPB yn benodol ar gyfer dibenion rheolaeth cadwraeth a'r amgylchedd. Mae hyn yn helpu i ddiogelu amrywiaeth o gynefinoedd yn gynnwys tir glas, prysgdir, gwelyau cyrs, morfeydd heli a thraethellau llaid. Yn 2007, enillodd y warchodfa wobr busnes morol Ystâd y Goron am ddarparu cyfleusterau dysgu newydd ac amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi creu swyddi lleol yn ogystal â chyfrannu at reolaeth dda'r warchodfa.

# Adroddiad y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol i Gomisiynwyr Ystâd y Goron

Archwiliais y datganiadau ariannol ar gyfer Ystâd y Goron am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2013, y mae'r wybodaeth ariannol ar du mewn y clawr blaen a thudalen 1 yn deillio ohonynt, yn unol gyda'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio. Yn fy adroddiad dyddiedig 12 Mehefin 2013, mynegais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol y mae'r wybodaeth ariannol yn deillio ohonynt.

Yn fy marn i, cafodd yr wybodaeth ariannol ategol eu dethol yn gywir, ym mhob cyswllt sylweddol, o'r cofnodion cyfrifeg a ddefnyddiwyd i lunio'r datganiadau ariannol archwiliedig y maent yn deillio ohonynt.

I gael dealltwriaeth well o sefyllfa ariannol o Ystâd y Goron a chanlyniadau ei weithgareddau am y cyfnod a chwmpas ein harchwiliad, dylid darllen yr wybodaeth ariannol mewn cysylltiad gyda'r datganiadau ariannol yr oedd yr wybodaeth ariannol yn deillio ohonynt a'n hadroddiad archwilio ar hynny.

***Amyas C E Morse***
*Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol*
*Swyddfa Archwilio Genedlaethol*
*157–197 Buckingham Palace Road*
*Victoria*
*Llundain*
*SW1W 9SP*

*18 Mehefin 2013*